



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Adroddiad Boddhad Cleifion â
Gwasanaethau Tinitws i Oedolion -
Cynhaliwyd **Rhagfyr 2023**

Mynegai

Crynodeb

Cefndir

Cwmpas

Holiadur

Canlyniadau - Hygyrchedd

Canlyniadau — Atgyweiriadau mynediad agored

Canlyniadau - Amgylchedd

Canlyniadau - Gwybodaeth a ddarparwyd

Canlyniadau — Yr apwyntiad

Canlyniadau - Arall

Sylwadau ar gyfer Gwelliannau

Casgliadau

Atodiad - Holiadur

Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r ymatebion i holiadur boddhad cleifion gan 60 o gleifion a ddefnyddiodd y Gwasanaethau Awdioleg i Oedolion a ddarperir ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ystod Rhagfyr 2023.

Cafodd nifer gynrychioliadol o bobl a fynychodd clinigau Caerdydd a Chei'r Gorllewin ar gyfer gwasanaethau Awdioleg i Oedolion eu holi.

Bydd crynodeb o ganfyddiadau'r adroddiad hwn yn cael ei bostio ar Wefan yr Adran Awdioleg ac ar yr hysbysfyrddau ym mhob clinig Gwasanaethau Awdioleg i Oedolion.

Cefndir

Bob blwyddyn mae tua 400 o gleifion yn cael mynediad at apwyntiadau Tinitws a therapi clyw, ar draws y ddau safle sy'n darparu Gwasanaethau Tinitws i Oedolion o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'r Adran yn darparu cymorth i Glinigau ENT a Meddygaeth Awdiofestibwlar, gan ddarparu 6000 o brofion clyw pellach y flwyddyn. Mae pob atgyfeiriad clyw tinitws o 16 oed ac yn hŷn yn cael eu brysennu i Awdioleg. Mae cymhorthion clyw neu generaduron sain yn cael eu gosod yn ôl yr angen a chynigir adolygiad i bob claf o fewn 12 wythnos. Gall cleifion hunanatgyfeirio am ailasesiad neu ail apwyntiad i osod cymorth clyw. Gall cleifion gyrchu'r gwasanaeth ar gyfer atgyweiriadau cymorth clyw a mowldiau clust trwy ein gwasanaeth atgyweirio mynediad agored.

Mae canllawiau arfer da yn annog Gwasanaethau Awdioleg i archwilio boddhad cleifion yn rheolaidd. Cynhaliwyd yr arolwg hwn ar gyfer Bwrdd Ysbyty Prifysgol Caerdydd a'r Fro ym mis Rhagfyr 2023 gan ddefnyddio fersiwn wedi'i haddasu ychydig o'r Arolwg Boddhad Cleifion a gyhoeddwyd fel rhan o'r Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg i Oedolion.

Canolbwyntiodd yr arolwg ar Wasanaethau Tinitws i Oedolion yn unig, ac o'r herwydd, nid oedd yn cynnwys Adran y Glust, Trwyn a'r Gwddf na'r Adran Meddygaeth Awdiofestibwlar, na'u gwasanaethau.

Cwmpas

Arolygwyd sampl gynrychioliadol o'r holl bobl wnaeth fynychu'r Adrannau Awdioleg i Oedolion ym mis Rhagfyr 2023. Cafodd cleifion 16 oed ac yn hŷn eu cynnwys yn yr arolwg, ar draws safle'r Ysbyty Athrofaol yng Nghaerdydd a safle Cei'r Gorllewin yn y Fro, er mwyn sicrhau bod sbectrwm eang o safbwyntiau yn cael eu cynrychioli.

Rhoddwyd yr holiaduron i'r 75 o gleifion cyntaf a ddefnyddiodd y gwasanaethau Awdioleg ers Rhagfyr 2023. Gofynnwyd i glinigwyr roi'r holiadur i'r claf ar ddiwedd yr apwyntiad, a gofyn iddo gael ei gwblhau a'i ddychwelyd yn ddiennw i flwch wedi'i labelu yn y dderbynfa cyn gadael yr Adran. Fel arall, rhoddwyd cod QR i gleifion a fyddai'n mynd â nhw at ffurflen Microsoft er mwyn cwblhau'r adborth boddhad.

Holiadur

Dyfeisiwyd yr holiadur a ddefnyddiwyd yn 2023 yn benodol ar gyfer cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau Awdioleg ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg i Oedolion.

Addaswyd yr holiadur ychydig i'w deilwra i'n Hadran ac i annog testun rhydd a barn ystyrlon.

Gofynnwyd i ymatebwyr roi sylwadau ar nodweddion allweddol eu hapwyntiadau sy'n cwmpasu'r elfennau angenrheidiol yn y Safonau, megis hygyrchedd, gwaith atgyweirio mynediad agored, amgylchedd, gwybodaeth, proffesiynoldeb a gofal a thriniaeth a dderbyniwyd.

Gofynnwyd i ymatebwyr seilio eu hymatebion ar bob un o'r apwyntiadau roeddent wedi'u derbyn dros y flwyddyn ddiwethaf.

Tabl Crynodeb Canlyniadau

	Bodlon iawn	Bodlon	Braidd yn anafodlon	Anfodlon iawn	Ddim yn berthnasol
Oeddech chi'n teimlo bod y staff yn groesawgar, cyfeillgar a chymwynasgar?	50	8	2	0	0
Eich profiad o gyfathrebu â'r adran	44	13	3	0	0
O'r amser y gwnaethoch sylweddoli fod angen i chi ddefnyddio'r gwasanaeth, pa mor fodlon ydych chi ar ba mor hir y bu'n rhaid i chi aros?	31	12	12	5	0
Y cymorth yr oedd ei angen arnoch i helpu gydag unrhyw anghenion cyfathrebu?	35	15	2	2	6
Y gwasanaeth a ddarparwyd ar gyfer atgyweiriadau mynediad agored?	14	2	0	0	44
Y gwasanaeth post ar gyfer atgyweiriadau a batris	11	3	0	0	46
Y croeso a gawsoch yn y dderbynfa	41	17	1	0	1
Ymddangosiad, glendid a chyfforddusrwydd yr ystafelloedd?	33	26	1	0	0
Y tymheredd mewn ystafelloedd clinig a manau aros?	29	24	6	1	0
Yr wybodaeth a gawsoch cyn eich apwyntiad?	40	19	1	0	0
Gwybodaeth ysgrifenedig a thafleni a ddarparwyd yn eich apwyntiad?	43	14	0	0	3

Y wybodaeth ar ein gwefan?	29	9	0	0	22
A gafodd pethau eu hesbonio i chi mewn ffordd hawdd ei deall?	49	10	1	0	0
Wnaethoch chi gyfrannu gymaint ag yr hoffech chi ei gyfrannu at benderfyniadau ynglŷn â'ch gofal?	47	10	1	1	1
Gwybodaeth a ddarparwyd am wasanaethau ychwanegol megis gwasanaethau cymdeithasol neu grwpiau cymorth?	40	8	2	0	10
Proffesiynoldeb yr Awdiolegydd a/neu staff y dderbynfa?	54	5	1	0	0
Y cyfleoedd i drafod problemau neu anawsterau rydych chi'n eu cael mewn gwahanol sefyllfaoedd?	50	8	1	0	1
Y cymorth a gynigiwyd ar gyfer problemau neu anawsterau?	47	11	0	1	1
Amser a gymerwyd i gael eich galw i'ch apwyntiad o'r ardal aros?	48	10	1	1	0
Pa mor fodlon ydych chi gyda'ch apwyntiad?	49	9	1	1	0


O'r 60 holiadur a gwblhawyd, gwnaed 36 o sylwadau yn yr adran testun rhydd, lle gofynnwyd i gleifion ddatgan unrhyw welliannau yr hoffent eu gwneud i'r Gwasanaeth Awdioleg. O'r rhain, roedd 33 yn sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd a gofynnodd 16 o ymatebwyr am welliant mewn gwasanaethau.

Wrth adrodd ar y canrannau isod, nid ydym wedi cynnwys yr ymatebion 'ddim yn berthnasol'.

1. Hygyrchedd

Edrychodd yr adran hon ar gyfathrebu â'r Gwasanaeth Awdioleg, pa mor hir roedd yn rhaid i gleifion aros am eu hapwyntiad ac anghenion cyfathrebu.

3. Accessibility




- *Eich profiad o gyfathrebu â'r adran* — cafwyd 60 o ymatebion. Ceir lefel dda o foddhad o ran cael mynediad i'r gwasanaeth, gyda 95% o gleifion yn fodlon iawn / yn fodlon ar hygyrchedd.
- *O'r amser y gwnaethoch sylweddoli fod angen i chi ddefnyddio'r gwasanaeth, pa mor fodlon ydych chi ar ba mor hir y bu'n rhaid i chi aros* - cafwyd 60 o ymatebion. Ceir lefel resymol o foddhad o ran cael mynediad i'r gwasanaeth, gyda 72% o gleifion yn fodlon iawn / yn fodlon ar hygyrchedd. Gwnaeth 5 o gleifion sylwadau ar yr amser aros hir i gael eu gweld o ddyddiad yr atgyfeiriad.
- *Y cymorth yr oedd ei angen arnoch i helpu gydag unrhyw anghenion cyfathrebu* - cafwyd 60 o ymatebion. Mae lefel eithaf uchel o foddhad gyda'r amser aros am apwyntiad, gyda 93% o gleifion yn fodlon iawn / yn fodlon ar yr amser aros. Roedd 7% o gleifion braidd yn anfodlon / anfodlon iawn. Gadawodd 2 o'r cleifion hyn sylw ar gyfer gwella. Dywedodd un ei fod wedi derbyn llythyr yn datgan ei fod wedi'i dynnu o'r rhestr aros oherwydd diffyg ymateb, ac wedyn nad oedd wedi gallu cysylltu â'r adran Awdioleg dros y ffôn. Gwnaeth y claf arall sylw ar amseroedd aros hir.

2. Atgyweiriadau mynediad agored

Roedd yr adran hon yn edrych ar brofiad y claf o'r gwasanaeth atgyweiriadau mynediad agored.

4. Open Access Repairs (if applicable)




- *Y gwasanaeth a ddarparwyd ar gyfer atgyweiriadau mynediad agored* - cafwyd 16 o ymatebion. Roedd 100% o gleifion yn fodlon iawn / yn fodlon ar y gwasanaeth atgyweiriadau mynediad agored.
- *Y gwasanaeth post ar gyfer atgyweiriadau a batris* - cafwyd 14 o ymatebion. Mae lefel uchel iawn o foddhad gyda gwasanaeth post yr adran, gyda 100% o gleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn fodlon iawn / yn fodlon.

3. Amgylchedd

Roedd yr adran hon yn edrych ar y croeso a gafodd cleifion yn y dderbynfa a'u boddhad ag ymddangosiad a chyfforddusrwydd ystafelloedd o fewn yr adran.

5. Surroundings




- *Y croeso a gawsoch yn y dderbynfa* — cafwyd 59 o ymatebion. Mae lefel dda o foddhad o ran y croeso a roddwyd yn y dderbynfa, gyda 98% o gleifion yn fodlon iawn / yn fodlon ar y croeso a gawsant. Roedd un claf braidd yn anfodlon a dywedodd fod y derbynnydd wedi'i gofrestru ond na roddodd unrhyw sylw iddo o gwbl. Gwelwyd y claf hwn yng nghlinig 7, lle mae'r derbynnydd yn gweithio ar gyfer adran y llygaid.

- *Ymddangosiad, glendid a chyffordduswydd yr ystafelloedd* - cafwyd 59 o ymatebion. Mae lefel uchel o foddhad ag ymddangosiad a chyffordduswydd ystafelloedd gyda 98% o gleifion yn fodlon iawn / yn fodlon.
- *Y tymheredd yn ystafelloedd y clinig a'r manau aros* - cafwyd 60 o ymatebion. Dywedodd 88% o gleifion eu bod yn fodlon iawn / yn fodlon. Roedd 1 claf yn anfodlon iawn a dywedodd fod yr ystafell aros a'r ystafell apwyntiadau yn rhy boeth.

4. Gwybodaeth a ddarparwyd

Edrychodd yr adran hon ar wybodaeth ysgrifenedig ac ar lafar a dderbyniwyd gan gleifion.

6. Information and Treatment




- *Yr wybodaeth a gawsoch cyn eich apwyntiad* - cafwyd 60 o ymatebion. Mae lefel uchel o foddhad gyda'r wybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd, gyda 98% o gleifion yn fodlon iawn / yn fodlon.
- *Gwybodaeth ysgrifenedig a thafenni a ddarparwyd yn eich apwyntiad* - cafwyd 57 o ymatebion. Mae lefel uchel o foddhad gyda'r wybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd, gyda 100% o gleifion yn fodlon iawn / yn fodlon.
- *Gwybodaeth ar ein gwefan* — cafwyd 38 o ymatebion. Mae lefel uchel o foddhad gyda'r wybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd, gyda 100% o gleifion

yn fodlon iawn / yn fodlon. Ers hynny rydym wedi ychwanegu gwybodaeth am ein gwefan at ein llythyrau cleifion i hyrwyddo ymwybyddiaeth.

- *A gafodd pethau eu hesbonio i chi mewn ffordd hawdd ei deall* - cafwyd 60 o ymatebion. Mae lefel uchel o foddhad gyda'r wybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd, gyda 98% o gleifion yn fodlon iawn / yn fodlon. Roedd 1 claf braidd yn anfodlon a dywedodd ei fod wedi derbyn mwy o wybodaeth 30 mlynedd ynghynt.
- *Wnaethoch chi gyfrannu gymaint ag yr hoffech chi ei gyfrannu at benderfyniadau ynglŷn â'ch gofal* - cafwyd 59 o ymatebion. Mae lefel uchel o foddhad gyda'r wybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd, gyda 95% o gleifion yn fodlon iawn / yn fodlon. Roedd 1 claf braidd yn anfodlon a

7. The Appointment



dywedodd ei fod am gael atgyfeiriad at ENT ond dywedwyd wrtho nad oedd yn addas. Roedd 1 claf yn anfodlon iawn a dywedodd nad oedd y cyngor rheoli a roddwyd iddo yn ddefnyddiol.

- *Gwybodaeth a ddarparwyd am wasanaethau ychwanegol megis gwasanaethau cymdeithasol neu grwpiau cymorth* - cafwyd 50 o ymatebion. Mae lefel uchel o foddhad gyda'r wybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd, gyda 96% o gleifion yn fodlon iawn / yn fodlon.

5. Yr apwyntiad

Gofynnodd yr adran hon i ymatebwyr raddio proffesiynoldeb holl aelodau Tîm Awdioleg Caerdydd, gan gynnwys staff y dderbynfa a'r awdiolegwyr.

- *Proffesiynoldeb staff* — cafwyd 60 o ymatebion. Mae lefel uchel iawn o foddhad gyda phroffesiynoldeb staff, gyda 98% o gleifion yn nodi eu bod yn

fodlon iawn. Mae'n braf cael adborth mor gadarnhaol o'r adran hon o'r holiadur. Bydd yr adroddiadau cleifion hyn yn cael eu bwydo'n ôl i staff yn y cyfarfod misol nesaf.

- *Y cyfleoedd i drafod problemau neu anawsterau rydych chi'n eu cael mewn gwahanol sefyllfaoedd* - cafwyd 59 o ymatebion. Mae lefel uchel iawn o foddhad gyda phroffesiynoldeb staff, gyda 98% o gleifion yn nodi eu bod yn fodlon iawn. Mae'n braf cael adborth mor gadarnhaol o'r adran hon o'r holiadur. Bydd yr adroddiadau cleifion hyn yn cael eu bwydo'n ôl i staff yn y cyfarfod misol nesaf.
- *Y cymorth a gynigiwyd ar gyfer problemau neu anawsterau* - cafwyd 59 o ymatebion. Mae lefel uchel iawn o foddhad gyda phroffesiynoldeb staff, gyda 98% o gleifion yn nodi eu bod yn fodlon iawn. Mae'n braf cael adborth mor gadarnhaol o'r adran hon o'r holiadur. Bydd yr adroddiadau cleifion hyn yn cael eu bwydo'n ôl i staff yn y cyfarfod misol nesaf.
- *Amser a gymerwyd i gael eich galw ar gyfer eich apwyntiad* — cafwyd 60 o ymatebion. Roedd lefel uchel iawn o foddhad gyda'r amser a gymerwyd i gael eich galw o'r ystafell aros am apwyntiad, gyda 97% o gleifion yn fodlon iawn / yn fodlon.


6. Arall

Gofynnodd yr adran hon i ymatebwyr raddio eu gofal a'u triniaeth gyffredinol o ran cyfle i drafod eu problemau a'u hanawsterau, a'r asesiad a'r help a gafwyd gyda'u hanawsterau clyw.

2. How Satisfied are you with the following:

Very Satisfied Satisfied Somewhat Dissatisfied Very Dissatisfied Not applicable


How satisfied are you with how welcoming, friendly, & helpful audiology staff were?



8. Other

Very Satisfied Satisfied Somewhat dissatisfied Very Dissatisfied Not applicable

Overall, How satisfied are you with your appointment?



- *Oeddech chi'n teimlo bod y staff yn groesawgar, cyfeillgar a chymwynasgar* - cafwyd 60 o ymatebion. Mae lefel uchel o foddhad gyda chyfleoedd i drafod gyda 97% o gleifion yn fodlon iawn / yn fodlon. Roedd 2 glaf braidd yn anfodlon a dywedodd 1 fod y derbynnydd wedi'i gofrestru ond na roddodd unrhyw sylw iddo o gwbl. Gwelwyd y claf hwn yng nghlinig 7, lle mae'r derbynnydd yn gweithio ar gyfer adran y llygaid.
- *Pa mor fodlon ydych chi gyda'ch apwyntiad* - cafwyd 60 o ymatebion. Mae lefel uchel o foddhad gydag asesu a chymorth gydag anawsterau clyw, gyda 97% o gleifion yn fodlon iawn / yn fodlon. Nid oedd yr un o'r sylwadau ar gyfer gwella yn sôn am welliannau i asesu na chymorth a dderbyniwyd ar gyfer anawsterau clyw. Roedd 1 claf braidd yn anfodlon a nododd ei fod yn credu bod yr apwyntiad ar gyfer gosod cymorth clyw, nid asesiad tinitws.

Sylwadau ar gyfer Gwelliannau

O'r 60 holiadur a gwblhawyd, gwnaed 36 o sylwadau yn yr adran testun rhydd, lle gofynnwyd i gleifion ddatgan unrhyw welliannau yr hoffent eu gwneud i'r Gwasanaeth Awdioleg. O'r rhain, roedd 33 yn sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd a gofynnodd 16 o ymatebwyr am welliant mewn gwasanaethau.

Sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd:

- Ar amser. Roedd y person a welodd fi yn llawn dealltwriaeth pan esboniais sut roedd straen yn effeithio ar fy nhinitws. Esboniodd sut mae hyn yn digwydd yn yr ymennydd. Yn barod i helpu. Diolch
- Yn falch iawn. Aeth popeth yn dda
- Bob amser yn ddymunol.
- Roedd yr awdiolegydd yn wybodus ac roedd yn gallu darparu cyngor defnyddiol.
- Roedd pawb yn gyfeillgar ac yn gwrtais. Cefais ddigon o wybodaeth a chyfle i ofyn cwestiynau.
- Roedd yr awdiolegydd yn hyfryd, rhoddodd ddolenni defnyddiol i mi (gwefan) ac mae wedi fy atgyfeirio am MRI gan fod fy nhinitws ar un ochr.
- Cwrtais, proffesiynol ac effeithlon
- Roedd yr awdiolegydd yn broffesiynol ac yn drylwyr yn ei harchwiliad.
- Rwy'n hoffi'r person sy'n delio â mi.
- Rhoddodd yr awdiolegydd sylw i mi a rhannodd wybodaeth yn glir.
- Roedd yn broffesiynol ac yn effeithlon. Roedd yr awdiolegydd yn gyfeillgar, yn tawelu fy meddwl ac yn gymwynasgar ac esboniodd bopeth yn dda.
- Cyfeillgar, trylwyr a phroffesiynol.

- Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n cael fy neall, eu bod yn gwrando arnaf, ac yn dangos empathi, ac nid oeddwn yn teimlo fy mod i ar fy mhen fy hun.
 - Gwybodaeth dda a chefais wybod y rhesymau dros y profion.
 - Roedd y fenyw y cefais fy apwyntiad gyda hi yn hyfryd. Eglurodd bopeth.
 - Roedd yr awdiolegydd yn gymwynasgar ac yn amyneddgar iawn.
 - Roedd agwedd yr awdiolegydd yn broffesiynol ac yn ddymunol. Cafwyd trafodaeth briodol a chefais gyfle i ofyn cwestiynau a cheisio eglurhad.
 - Cefais amser a'r cyfle i ddeall tinitws yn well a'r pethau y gallaf eu gwneud i helpu fy hun
 - Lleferydd clir, yn hynod amyneddgar. Atebwyd pob cwestiwn yn fanwl. Dim byd yn ormod o drafferth
-
- Roedd Hannah yn llawn dealltwriaeth
 - Roedd y person sy'n delio â mi yn wybodus iawn ac roeddwn yn cael fy neall. Esboniodd bopeth ac rwy'n ddiolchgar y gall fy nhinitws gael ei reoli, a oedd yn wych i'w glywed gan fod fy meddygon llawdriniaeth bob amser wedi dweud na ellid gwneud dim, ac mae wedi cymryd dros 6 mlynedd o uffern i weld awdiolegydd o'r diwedd a chael cymhorthion clyw wedi'u gosod mewn llai na 4 mis.
-
- Y staff (2x sylw)
 - Roedd yr awdiolegydd yn hyfryd. Cymerodd yr amser i wrando ar bopeth oedd gennyf i'w ddweud

Sylwadau sy'n awgrymu gwelliannau:

- Cymerodd dros 14 mis i'ch cyrraedd chi!
- Roedd y rhestr aros yn hirach na'r disgwyl.
- Aros am dros flwyddyn i gael fy ngweld
- Amser a gymerwyd i gael apwyntiad.
- Amser o'r atgyfeiriad i gael eich gweld.
- Roedd y llythyr apwyntiad yn nodi 2 rif clinig gwahanol nad oedd o gymorth. Wedi aros 18 mis ar gyfer yr apwyntiad.
- Mae'r ystafell aros a'r ystafell apwyntiadau yn rhy boeth.
- Parcio (4 sylw)

Ymateb

Roedd yn braf iawn gwybod bod canran mor uchel o ymatebwyr yn fodlon iawn ar y Gwasanaeth Tinitws i Oedolion a dderbyniwyd yn gyffredinol. Mae'r holl sylwadau negyddol yn cael eu cymryd o ddifrif a byddant yn ffurfio cynllun gweithredu'r flwyddyn nesaf ar gyfer gwella gwasanaethau.

Camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf

- Ar hyn o bryd rydym yn y broses o gael system aerdymheru wedi'i gosod yn y clinig, mae'r prosiect hwn yn mynd rhagddo.
- Ar hyn o bryd rydym wedi cyflogi locwm i leddfu amserau'r rhestrau aros. Rydym yn gobeithio cyflogi mwy o aelodau o dîm Awdioleg CAF i gynorthwyo gydag apwyntiadau tinitws.
- Rydym wedi golygu ein holl lythyrau i gleifion i sicrhau bod gwybodaeth y clinig yn gywir, yn ogystal ag ychwanegu gwybodaeth ynglŷn â'n gwefan.
- Rydym yn ychwanegu gwybodaeth am y gwasanaeth parcio a theithio sydd ar gael i staff a chleifion i helpu gyda pharcio.

Casgliadau

Arolygwyd nifer gynrychioliadol o ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws ein safleoedd yng Nghaerdydd a'r Fro. Roedd y rhai a holwyd yn mynychu ar gyfer asesiad tinitws, ffitiadau tinitws neu adolygiadau tinitws. Ar gyfer meysydd lle cafwyd swm bach o anffodlonrwydd, mae camau wedi'u cymryd, neu bydd camau yn cael eu cymryd i wella gwasanaethau, cyn belled ag sy'n ymarferol.

Mae'r adran yn ymdrechu i ddarparu'r gofal gorau posibl i bob claf a welir ac mae'n parhau i wneud gwelliannau i'r gwasanaethau. Rydym hefyd wedi derbyn adborth gan ein fforwm cleifion tinitws. Gellir dod o hyd i'r cofnodion o'r cyfarfod hwn yn y ffolder cofnodion 'fforwm cleifion tinitws' ar y gyriant s.

Atodiad

Holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg hwn.

Appointment type: _____

Clinic: _____

Date: _____

ADULT AUDIOLOGY SERVICE SATISFACTION QUESTIONNAIRE

Please help us to improve our service. We would be grateful if you could indicate your level of satisfaction with a tick. Please base your responses on all appointments you have had in the past year with Audiology. Thank you for your time.

How satisfied are you with the following?	Very Satisfied	Satisfied	Somewhat Dissatisfied	Very Dissatisfied	Not Applicable
Did you feel people were welcoming, friendly & helpful?					
ACCESSIBILITY					
Your experience of communicating with the department?					
From the time you realised you needed to use the service, how satisfied are you with how long you had to wait?					
The support you needed to help with any communication needs?					
OPEN ACCESS REPAIRS (if applicable)					

Written information and leaflets provided at your appointment?					
The information on our website?					
Were things explained to you in a way that you could understand?					
Were you involved as much as you wanted to be in decisions about your care?					
Information provided on additional services such as social services or support groups?					
THE APPOINTMENT					
The professionalism of the Audiologist and/or reception staff?					
The opportunity to discuss problems or difficulties you are having in different situations?					
The help offered for your problems or difficulties?					
Time taken to be called into your appointment from the waiting area?					
OTHER					
How satisfied are you with your appointment?					
What did you like about your appointment in Audiology?					